# Ysgol Gymraeg Sant Curig

Heol y Coleg, Y Barri CF62 8HQ
01446 744222
ysantcurig@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgolgymraegsantcurig.com

# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni 2022-2023

Annwyl Riant

Yn unol â Deddf Addysg (Rhif 2 1986) mae'n rhaid i ni fel Corff Llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni, sydd yn amlinellu ein gwaith a'n gweithgareddau. Nid yw hi'n ofynnol mwyach i gynnal cyfarfod agored i drafod yr adroddiad, ond os ydych yn dymuno gwneud hynny, yna cysylltwch â swyddfa'r Ysgol i drafod ymhellach.

**Cynnwys:**


1. Cyfarchiad y Cadeirydd
2. Llawlyfr yr Ysgol
3. Digwyddiadau a Champau/Chwaraeon
4. Eisteddfod
5. Gweithio Gydag Eraill
6. Mwy Abl a Thalentog
7. Cynllun Datblygu'r Ysgol - Blaenoriaethau 2023/2024
8. Bwrdd y Llywodraethwyr a Polisiau
9. Aelodau Staff / Sesiynau Ysgol / Trefn Dosbarthiadau
10. Elusennau
11. Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu
12. Bwyta'n Iach
13. Addysg Uwchradd
14. Trefniadau Pontio
15. Cysylltiad â'r Gymuned
16. Athrawon
17. Anghenion Dysgu Ychwanegol
18. Blaenoriaethau 2023/2024
19. Canlyniadau 2022/2023
20. Presenoldeb 2022/2023
21. Cyllideb yr Ysgol
22. Adeilad yr Ysgol
23. Tai Bach
24. Yr Ardd Wyllt
25. Cyfleusterau Chwaraeon
26. Cyfeillion Curig
27. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2023/2024

1. **Cyfarchiad y Cadeirydd**

Fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol am y flwyddyn 22/23. Mae hwn yn darparu gwybodaeth ystadegol, ynghyd â throsolwg o ddigwyddiadau pwysig. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fywyd yr ysgol, ei harweinyddiaeth ac yn amlygu rhai o gyflawniadau ein disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cael blwyddyn brysur a gwn fod yr holl staff wedi bod mor falch o gael y disgyblion yn ôl yn yr ysgol, ac er ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol gyda Covid byth yn bell i ffwrdd, mae cymuned yr ysgol wedi cyd-dynnu ac fe wedi bod yn wych gweld teuluoedd yn mwynhau ac yn cefnogi amryw o ddigwyddiadau ysgol trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae staff a disgyblion wedi bod yn gweithio'n galed i weithredu Cwricwlwm i Gymru.
Rwy'n hynod o falch bod tîm Ysgol Sant Curig yn gweithio mor galed i ddatblygu cryfderau pob plentyn, tra ar yr un pryd bob amser yn rhoi lles y plant wrth galon popeth a wnânt. Rwy'n cydnabod a hoffwn ddiolch am waith rhagorol yr holl staff wrth gyfrannu at lwyddiannau niferus yr ysgol.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth mae'r ysgol yn ei derbyn gennych chi fel rhieni, perthnasau a gofalwyr ac edrychaf ymlaen at gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n plant.

2. **Llawlyfr yr Ysgol**

Mae copi llawn o lawlyfr yr Ysgol ar gael o'r brif swyddfa.

3. **Digwyddiadau a Champau/Chwaraeon**

- Am y tro cyntaf ers amser hir, fe lwyddodd yr ysgol i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau chwaraeon eleni. Chwaraewyd nifer o gemau cyfeillgar pêl-droed yn erbyn timoedd lleol yn ogystal â chystadlu'n frwd yng nghystadlaethau'r Urdd a Chaerdydd a'r Fro, bechgyn a'r merched. Yn ogystal â hyn, fe chwaraeodd tîm rygbi bechgyn a merched yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn. Rydym wrth ein boddau yn dathlu llwyddiannau ein disgyblion mewn amrywiaeth o gampau y tu allan i'r ysgol.

4. **Eisteddfod**

- Braf oedd gweld llawer o blant Ysgol Gymraeg Sant Curig yn perfformio ar lwyfan Bro Morgannwg yn yr Eisteddfod gylch eleni. Roedd yna berfformiadau gwych gyda'r can a llefaru dan 7, dan 9 a hefyd gyda'r dan 11. Fe gafodd Tirion Warner llwyddiant arbennig gyda'r clarinet, death hi'n ail yng nghystadleuaeth chwythbrennau yn yr Eisteddfod Sir!

5. **Gweithio gydag eraill**

- Mae'r ysgol yn rhan o Ffederasiwn ysgolion o fewn Consortiwm Canolbarth y De (Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr, RCT a Phenybont)
- Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n agos gyda chlwstwr ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg. Mae gennym Gymunedau Dysgu Proffesiynol sydd yn ffocysu ar y 6 Maes Dysgu a Phrofiad ac Addysgeg. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ymysg ysgolion Cymraeg y Fro wrth i ni gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.
- Fe lwyddodd yr ysgol a'r Tîm Siarter Iaith i gydweithio gydag ysgol Gladstone yn cyflwyno prosiect gemau buarth yn y Gymraeg. Roedd rhaid i'r tîm ysgrifennu adroddiad i'r Consortiwm a wnaeth hyn dderbyn canmoliaeth gan yr awdurdod.

6. **Gweithgareddau ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Mwy Abl a Thalentog**

- Dewiswyd arweinwyr ymysg ein disgyblion i fod yn aelodau o'r Cyngor Ysgol, Cyngor ECO Cyngor Siarter Iaith a'r Cyngor Chwaraeon.
- Roedd bob dosbarth yn cynnig cyfleoedd heriol yn ystod gwersi i hybu ac ymestyn ein dysgwyr mwy abl a thalentog
- Dewiswyd nifer o ddisgyblion abl a thalentog ar gyfer treialon pel-droed a rygbi y Sir.

7. **Blaenoriaethau ac Adolygiad Cynllun Datblygu Ysgol 2022/2023**

| Blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol 2022/2023 | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Gwerthusiad** |
| **1. Parhau i ddatblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu er mwyn creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.** | Bod yna system asesu wedi arbrofi arno yn ystod y flwyddyn. Gwerthuso a gosod argymhellion ar gyfer CDY Y Cwricwlwm i Gymru 2023/24<br>HMS ysgol gyfan i werthuso ble ydyn ni nawr ac i gynllunio ar gyfer gwelliant.<br>12 egwyddor yn rhan bwysig o'r gwaith AAGD yn ein CDY ar gyfer 2023/24 – Blaenoriaeth 1 unwaith eto. |
| **2. Parhau i addasu yn ôl y ddeddf ADY, Ionawr 2022** | Mae'r ysgol yn parhau i wneud cynnydd da yn ol yr addasiadau a gynlluniwyd go gyfer paratoi am y ddeddf ADY. Mae'r heriau yn ymwneud ag amser a staffio – mae'r staff wedi gorfod rhoi mwy o amser i unigolion gydag anghenion BES yn hytrach na Cognition and Learning. Bwriadwn ail strwythuro staffio rhywfaint flwyddyn nesaf er mwyn ymateb i hyn. |

| | |
|---|---|
| **3. Cryfhau ymhellach sgiliau llafar a gwrando ein disgyblion er mwyn ymateb i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig ym maes ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Mae hyn yn rhan allweddol o weledigaeth yr ysgol.** | Effaith y cynllun Trochi Iaith, Y Llwyfan Llafar a chynllun Llais 21 i'w gweld ar lawr dosbarth ym Mlwyddyn Tri a Phump. Disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r strategaethau. Y camau nesaf fydd i barhau i readri hyn drwy'r ysgol/ cynllunio hyfforddiant staff i sicrhau cysondeb ar draws y blynyddoedd. Adborth positif iawn gan Arweinydd Cyswllt Llais 21 yn dilyn taith wrando ac arsylwadau gwersi. Adran Gymraeg CSC (Ceryl Rowe) hefyd yn ysgrifennu astudiaeth achos yn uwch oleuo arfer dda a llwyddiant taith lafar yr ysgol hyd yn hyn. |
| **4. Mewnblannu dull ysgol gyfan wrth ystyried lles emosiynol a meddyliol staff a disgyblion yn yr ysgol.** | Fe lwyddodd Mrs Heledd Francis i weithio drwy'r adnodd hunan werthuso gyda Lisa Lewis a hefyd wrth gyd-weithio gyda chwmni Sally Evans (Perform and Grow). Bu'r diwrnod Lles i staff yn llwyddiant mawr. Cafodd arddangosfa Lles staff ei greu yn y lolfa gyda gwybodaeth (signposting)wedi ei rannu yn ychwanegol. Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal mwy o sesiynau goruchwyliaeth i staff o Fedi '23 ymlaen gyda'r gwasanaeth Seicoleg Addysg. |
| **5. Creu system Rheoli Perfformiad newydd i staff dysgu er mwyn sicrhau datblygiad professiynol parhaus** | Staff wedi cynnal cyfarfod i drafod y flwyddyn ac wedi cwblhau'r cylch. Mae yna dargedau wedi trafod ar gyfer 2023/24 ond heb eu ffurfioli eto. Fe fydd yna gyfarfod ym mis Medi gyda'r arweinydd tim Rheoli Perfformiad i gadarnhau'r targedau. |
| **Is-Flaenoriaethau:** | |
| Gweithgareddau'r Siarter Iaith. | |
| Dechrau mapio profiadau mathemateg/rhifedd ar draws yr ysgol. | |

## 8. <u>Bwrdd y Llywodraethwyr a Pholisiau</u>

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am reoli'r ysgol yn effeithiol. Pedair blynedd yw cyfnod swydd arferol Llywodraethwr ac mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethu llawn i'w weld isod. Cynhaliwyd cyfarfodydd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu'n cyflawni ei dyletswyddau statudol. Ymgymerodd y Llywodraethwyr ag ystod o weithgareddau hyfforddi a datblygu gan gynnwys rheoli cyllid, iechyd a diogelwch, effeithiolrwydd egni, canllawiau gwrth fwlio, rheoli perfformiad, rheoli gwaharddiadau yn ogystal â mynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar gyfer Llywodraethwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael am rôl y Corff Llywodraethol, y cyfarfodydd hyfforddiant a datblygu a fynychwyd a chofnodion y cyfarfodydd ar gael gan glerc ein Llywodraethwyr.

Trafodwyd amrywiaeth o agweddau gan gynnwys gweithgareddau Ysgol, cyllid Ysgol, nod ac amcanion yr Ysgol, adroddiadau'r Pennaeth a chynlluniau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau newydd yng Nghyfnod Allweddol 2. Adolygwyd datblygiad Cynllun Datblygu Ysgol yn rheolaidd ac fe ddarparwyd diweddariad ohono gogyfer â phob cyfarfod.

Mabwysiadwyd ystod llawn o bolisiau yn ystod y flwyddyn a chant eu hadolygu yn ôl yr amserlen. Cedwir bob polisi ar safle'r Ysgol.

**Aelodau o'r Corff Llywodraethu 2022/2023**

| Rôl y Llywodraethwyr | Enw |
|---|---|
| Cadeirydd (Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ – 01446 744222) | Mrs Tiffany Barker |
| Is-gadeirydd | Mrs Bethan Owen |
| Pennaeth | Mr Rhodri Jones |
| Rhiant Lywodraethwyr | Ms Ricki Lewis, Mrs Rebecca Warner, Mr Jeffrey Mitchell, Ms Karen Worman, Mr Neil Maddison, Mrs Katie West. |
| Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Lleol | Mr Lynden Mack, Mrs Meinir Thomas, Dr Sian Williams, Mr Gwynne Griffiths |
| Cynrychiolwyr Staff | Miss Hannah Saar, Mrs Heledd Francis, Mrs Ruth Lee (non-teaching) |
| Aelodau Cymunedol | Mr Andrew Humphreys, Mrs Bethan Owen, Mrs Tiffany Barker, Miss E Sullivan |
| Clerc i'r Llywodraethwyr – (Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ - 01446 744222) | Miss Rachel Cox |
| Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau<br>Pennaeth Safonau a Darpariaeth<br>MAR | Mrs Paula Ham<br>Mrs Morwen Hudson<br>N/A |

9. **Aelodau Staff/Trefn Dosbarthiadau/Sesiynau Ysgol**

| **Aelodau Staff 2022/2023** | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mr R Jones |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mrs H Francis |
| **Athrawon** | Mrs C Walsh, Miss M Down, Mrs N Lewis-Jones, Mrs E Morrison, Mrs N Thomas, Miss H Saar, Miss A Withey/Mrs B Collins, Dr C Richards, Mrs L Weighell, Mr AP Williams, Mr Ll Huw, Mrs S Iwan-Jones, Miss H Owen, Mr M Llwyd, Mr M Price, Mrs S Sampson/Mr D Terfel/Mrs N Norman, Mrs J Griffiths |
| **Gweinyddwraig Ysgol**<br>**Cynorthwywyr Gweinyddol** | Mrs N Hallett<br>Miss C Paget, Miss B Hayward |
| **Uwch Gynorthwywyr** | Mrs C Jones, Mrs J Bowen, Miss L Richards |
| **Staff Cynnal Dysgu** | Mrs E Parry, Miss S Jones, Miss H Sparkes, Mrs R Warner, Mrs R Lee, Mrs H Ruck, Mrs S Humphreys, Mrs J Giltinan, Mrs S Jenkins, Miss Rh Carter, Miss K Press, Mrs H Watkins.<br>Staff Asiantaeth - Miss L Jones, Miss Caitlin Kelly, Miss E Conibear, Miss S Moore, Miss G Bick, Mr J Gerrish |
| **Gofalwr** | Mr I Ellis |
| **Cynorthwywyr Cinio** | Mrs C Mason, Mrs P Farnham, Mrs K Rosser, Mrs Chole Downes |
| **Goruchwylwyr Clwb Brecwast** | Mrs K Rosser, Mrs C Mason, Miss B Hayward, Miss L Richards, Miss C Downes |
| **Staff Clwb Carco** | Mrs E Parry, Mrs C Jones, Miss L Richards, Mrs H Ruck, Miss K Rosser |
| **Y Gegin** | Mrs Rachel Stone |
| **Athrawon Cerddoriaeth** | Mrs K Kuczynski, Mrs E Henry, Mrs D Connell, Miss N Horne, Ms S Thomas |

| **Sesiynau Dysgu** | |
|---|---|
| Bore | 9.00yb - 11.30yb (Meithrin) |
| | 8.40yb – 11:45/11:55yp (Cyfnod Sylfaen) |
| | 8:40yb – 12:30yp (Adran Iau) |
| Prynhawn | 12:30yp - 3:00yp (Meithrin) |
| | 1:00yp – 3:20yp (Cyfnod Sylfaen) |
| | 1:30yp – 3:20yp (Adran Iau) |

| Trefn Dosbarthiadau 2022/2023 | |
|---|---|
| **Meithrin** | Mrs C Walsh/Mrs C Jones |
| **Derbyn** | Mrs N Lewis Jones/Miss M Down/Mrs E Morrison |
| **Blwyddyn 1** | Miss H Saar/Mrs E Morrison/Mrs N Thomas |
| **Blwyddyn 2** | Miss A Withey/Dr C Richards/Mrs B Collins (Ionawr 2023) |
| **Blwyddyn 3** | Mr AP Williams/Mrs L Weighell/Mr D Terfel |
| **Blwyddyn 4** | Mrs S Iwan Jones/Mr Ll Huw/Mrs J Griffiths |
| **Blwyddyn 5** | Miss H Owen/Mr M Llwyd/Mr D Terfel |
| **Blwyddyn 6** | Mrs S Sampson/Mr M Price/Mrs J Griffiths/Mrs N Norman (Ionawr 2023) |
| **CPA** | Mrs J Bowen/Miss L Richards/Mrs J Griffiths/Mr D Terfel |

**10. <u>Cefnogwyd yr elusennau isod</u>;**

Plant Mewn Angen, Banc Bwyd y Fro, 'DogsTrust', Apêl y Pabi Coch, 'Comic Relief', Ysbyty Felindre a Marie Curie

**11. <u>Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu</u>**

Gweledigaeth yr ysgol

Rydym yn ysgol hapus a chroesawgar sydd a'i chalon yn y gymuned. Datblygwn ein disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol, galluog, hyderus a'n ddinasyddion fyd eang. Hoffwn barhau i ddatblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu er mwyn creu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu trwy gydol oes.
Rydym yn ymfalchio yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn drwy'r ysgol. Ac yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchio yn yr awyrgylch gyfeillgar a gofalgar sydd bob amser i'w weld. Mae Lles disgyblion yn ganolbwynt i bob peth da sy'n digwydd yma yn Sant Curig.Cynlluniwn gwricwlwm sydd yn gyfoethog o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau, yn galluogi i ddisgyblion gael dyheadau ac i lwyddo drwy gynnig her i bawb.

Mae'r ysgol yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cynllunio gweithgareddau a themau sydd yn hybu'r Pedwar Diben fel eu bod yn dod yn ran annatod o fywyd disgyblion Sant Curig. Prif iaith yr ysgol yw'r Gymraeg. Disgwyliwn i'r plant gyfathrebu yn y Gymraeg drwy'r amser heblaw mewn gwersi Saesneg. Dysgir pob gwers drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cydlynwyr yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r cwricwlwm e.e Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol a Gwyddoniaeth. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym Mlwyddyn 3. Grwpiwn staff i'r chwe maes dysgu a phrofiad wrth i ni weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Astudir amryw o themâu diddorol a gynlluniwyd ar y cyd gyda'r disgyblion o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan sicrhau fod pob agwedd o'r cwricwlwm yn cael ei haddysgu. Dysgir Addysg Ryw fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd addysgu'r Cyngor Addysg Iechyd ar gyfer y plant hŷn. Os na chawn ein hysbysu'n wahanol gan rieni caiff Addysg Grefyddol ei addysgu mewn ffordd anenwadol gyda phob un yn mynychu gwasanaeth boreol. Fel rhan o'r cwricwlwm, caiff crefyddau eraill eu hastudio.

Asesir a thrafodir gwaith yn rheolaidd gan staff. Rydym yn trefnu nosweithiau agored dair gwaith y flwyddyn yn ystod Tymor yr Hydref, Gwanwyn a Thymor yr Haf i alluogi rhieni i drafod gwaith ei plentyn. Yn ogystal i hyn, bydd yna adroddiad manwl yn cael ei hysgrifennu, yn Gymraeg neu Saesneg, unwaith y flwyddyn i grynhoi gwaith blwyddyn ysgol bob un plentyn. Wrth i ni weithredu polisi drws agored, mae'r staff hefyd ar gael ar adegau eraill i gyfarfod â rhieni os oes angen nail ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

**12. Bwyta'n Iach**

Anogir ein disgyblion i fwyta'n iach ar bob achlysur. Mae'r Ysgol yn aelod o Rwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg ac wedi derbyn clod am gyrraedd Cam 5. Caniateir i'n disgyblion yfed dŵr yn ystod gwersi er mwyn sicrhau nad ydynt yn sychedig. Caiff ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y cyfle i brynu ffrwyth yn ddyddiol a rhoddir diod o laeth am ddim iddynt bob dydd. Gofynnwn i'n rhieni i ddarparu byrbryd iachys i'n disgyblion

**13. Addysg Uwchradd**

Dilynwn polisi pontio clwstwr Bro Morgannwg, ac mae gennym gysylltiadau ardderchog gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac mae athrawon cyswllt o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 i'w cynorthwyo gyda'r pontio i'r ysgol uwchradd. Bu'r plant hefyd yn ymweld â'r Ysgol Uwchradd ar amryw o achlysuron, yng nghyd-destun chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda holl ysgolion Cymraeg y Fro ac YGBM i weithredu Cynllun Pontio Cynradd / Uwchradd. Cynhelir cyfarfodydd cyson er mwyn cyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn sicrhau cysondeb mewn safonau. Yn ogystal a hyn oll, fe weithredwn Gymunedau Dysgu Proffesiynol sydd yn ffocysu ar y 6 Maes Dysgu a Phrofiad.

**14. Trefniadau Pontio mewnol ein hysgol**

- Cynhelir cyfarfodydd pontio o'r Derbyn i Flwyddyn 1, Blwyddyn 1 i Flwyddyn 2, Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3, Blwyddyn 3 i Flwyddyn 4, Blwyddyn 4 i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 5 i Flwyddyn 6 yn ystod hanner tymor olaf y flwyddyn academaidd.
- Yn ogystal â hyn, fe drefnwyd dau gyfarfod i rieni'r meithrin i'r dosbarth derbyn yn ystod tymor yr haf. Un cyfarfod yn y bore ac un yn y prynhawn.
- Cynnigwn bore/prynhawn agored i rieni ein meithrin neu cyn-feithrin yn ogystal.

**15. Cysylltiadau gyda'r Gymuned**

Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Argyfwng megis yr Heddlu a'r Frigâd Dân. Mae gennym raglen o ymweliadau gyda'n Heddwas Cymunedol sydd yn ymweld â phob dosbarth yn yr Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Trafodir agweddau megis diogelwch ar y ffordd, dieithriaid yn ogystal â chyffuriau, seibrbwlio a diogelwch ar y Wê.
Defnyddir Llyfrgell y dref yn achlysurol. Mae gan yr Ysgol gyswllt agos a Menter Bro Morgannwg. Derbyniwyd grant o £5000 gan gwmni lleol Dow Corning i ddatblygu gweithgareddau STEM ac i archebu offer technoleg ar gyfer ein dysgwyr.

**16. Athrawon**

Cynhaliwyd cyfarfodydd Hyfforddiant Mewn Swydd i staff ar ôl ysgol yn wythnosol i drafod materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a bywyd bob dydd yr ysgol. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd datblygiadol gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd ar ddarllen a sillafu, agweddau o TGCh, ADY, monitro a thracio cynnydd disgyblion, darblygu Llais 21 ar draws yr ysgol, y Fframwaith digidol, edrych ar 'Trauma ac Attachment Disorder' ac agweddau o rifedd ar draws y cwricwlwm. Cynrychiolwyd yr ysgol gan aelodau o staff mewn amryw o grwpiau clwstwr (Llythrennedd, Rhifedd, Digidol ac Addysgeg yn ogystal a'r 6MDaPh) er mwyn sicrhau cysondeb addysgu a safonau mewn meysydd pwnc ar draws yr ysgol a'r Sir. Rhoddwyd 81% o'r hyfforddiant i dri agwedd yn benodol; Angenion Dysgu Ychwanegol, Y Cwricwlwm i Gymru ac Addysgeg.

**17. Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Ein Dirprwy Bennaeth Mrs Heledd Francis ydy CADY (Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol). Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda rhieni ac amryw o asiantaethau allanol. Mae Mrs Francis yn gweithio'n agos iawn gydag asiantaethau lleol i gefnogi ein disgyblion.
Mae Mrs Francis hefyd wedi gweitho'n galed i baratoi'r ysgol ar gyfer y Ddeddf ADY newydd a ddaeth yn weithredol i ysgolion ym mis Ionawr 2022.

**18. Blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023**

| | |
|---|---|
| *1.* | **Cwricwlwm i Gymru/*The Curriculum for Wales* – Ffocws eleni ar y 12 Egwyddor Addysgeg. Byddwn yn canolbwyntio ar agweddau amrywiol o Asesu ar Gyfer Dysgu.** |
| **2.** | **I gryfhau prosesau Asesu Ysgol Sant Curig drwy ddefnyddio Camau Curig fel cerrig millitir disgyblion ac i ddefnyddio system Asesu i gadw portfolio personol i bob disgybl yn yr ysgol.** |
| **3.** | **Llythrennedd – Cryfhau ymhellach sgiliau llafar a gwrando ein disgyblion er mwyn ymateb i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig ym maes Ieithoedd, llythrennedd a Chyfathrebu.Fe fydd ein ffocws ar ddatblygu strategaethau Llais 21 ar draws yr ysgol eleni.** |
| **4.** | **Creu Polisi Perthnasoedd sy'n cyfuno'r gwaith gwnaethpwyd ar fewnblannu dull ysgol gyfan i gefnogi lles a iechyd meddwl gyda'r gwaith rydym wedi gwneud gyda cwmni Paul Dix (When the Adults Change)** |
| **5.** | **I fapio mathemateg ar draws yr ysgol fel cynnigir y profiadau a chyfloedd eiddgar i'r disgyblion wrth addasu'r ffordd o addysgu mathemateg gan roi bwyslais ar ddealltwriaeth cadarn o'r agweddau fathemategol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.** |

**19. Profion Diwedd Cyfnod 2022/2023**

Cynhaliwyd y profion cenedlaethol yn ystod tymor y Gwanwyn. a rhoddwyd linc i rieni cael gweld y canlyniadau.
Gwnaethpwyd profion mewnol hefyd dwywaith y flwyddyn, tymor yr hydref ac yna tymor yr haf.

## 20. Presenoldeb 2022/2023

Presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2022/23 oedd 91%. Mae'r ysgol wedi derbyn targed o 94% ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

## 21. Cyllideb yr ysgol 2022/2023

Fe lwyddodd yr ysgol i osod cyllideb a oedd yn cydbwyso ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

| **Vale of Glamorgan Council Ysgol Gymraeg Sant Curig Outturn Report 2022-23 Revenue Summary** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **COST CENTRE CODE** | **COST CENTRE DESCRIPTION** | **DETAIL** | **ANNUAL BUDGET** | **TOTAL ACTUAL** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CONT. TO FUNDS | 4,100.00 | 52,724.63 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **CONT TO CAPITAL OUTTURN** | | **48,625.89** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **CONT TO GENERAL RESERVE** | **4,100.00** | **4,098.74** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | EMPLOYEES | 1,593,737.00 | 1,629,567.86 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **TEACHING EMPLOYEES** | **971,417.00** | **969,160.22** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **NON-TEACHING EMPLOYEES** | **226,622.00** | **251,905.05** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **GRANT EMPLOYEES** | **395,698.00** | **408,502.59** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 208,202.00 | 195,102.16 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **INTERNAL RECHARGES EXPEND** | **208,202.00** | **195,102.16** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | PREMISES | 169,983.00 | 161,767.19 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES** | **63,985.00** | **63,730.25** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **ENERGY** | **21,300.00** | **23,973.12** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **GROUNDS MAINTENANCE** | **3,150.00** | **2,887.50** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **RATES** | **22,330.00** | **22,330.00** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **REPAIRS & MAINT OF BUILDING** | **51,718.00** | **43,073.04** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **WATER SERVICES** | **7,500.00** | **5,773.28** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | SUPPLIES AND SERVICES | 200,036.00 | 43,660.50 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **COMMS AND COMPUTING** | **4,500.00** | **4,913.29** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **EQUIP, FURNITURE & MATERIALS** | **39,254.00** | **27,301.46** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **EXPENSES** | **205.00** | **0.00** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **GRANTS & SUBSCRIPTIONS** | **1,321.00** | **2,001.25** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **MISC EXPENSES** | **135,596.00** | **121.50** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS** | **19,000.00** | **8,693.26** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **SERVICES** | **160.00** | **629.74** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | TRANSPORT | 800.00 | 281.90 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **CAR ALLOWANCES** | **800.00** | **281.90** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | CUSTOMER RECEIPTS | | -64,059.33 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **CHARGE FOR SERVICE** | | **-16,000.00** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **DONATIONS** | | **-14,747.58** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **SALE OF PRODUCTS** | | **-33,311.75** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | GOVERNMENT GRANT | -322,089.00 | -366,685.63 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **OTHER GOVERNMENT GRANTS** | **-8,290.00** | **-8,290.00** |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **WG GRANTS** | **-313,799.00** | **-358,395.63** |
| 101315 | Ysgol Gymraeg Sant Curig | INTERNAL RECHARGES INCOME | -34,044.00 | -39,180.03 |
| **101315** | **Ysgol Gymraeg Sant Curig** | **INTERNAL RECHARGES INCOME** | **-34,044.00** | **-39,180.03** |
| | | **Total 101315** | **1,820,725.00** | **1,613,179.24** |

**Vale of Glamorgan Ysgol Sant Curig Outturn Report 2022/23 Balance Sheet Summary**

| COST CENTRE | BSLEVEL3 | OPENING BALANCE | MOVEMENT | CLOSING BALANCE |
|---|---|---|---|---|
| 910048 - Ysgol Sant Curig | Schools Employees and misc. balances | 231,691.00 | -24,145.25 | 207,545.75 |

**22. Adeilad yr Ysgol**

Rydym wedi llwyddo i adeiladu derbynfa newydd i'r ysgol sydd wedi gwneud ein safle yn fwy diogel o lawer. Rydym hefyd wedi llwyddo i newid yr ardal patio o flaen yr ysgol i dir ffug.

**23. Cyfleusterau Tai Bach**

Mae'r Ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ac mae gennym y nifer cywir o dai bach ar gyfer y nifer o blant sydd yn yr Ysgol. Caiff y tai bach eu glanhau'n ddyddiol gan dîm glanhau'r Sir ac rydym yn monitro eu cyflwr yn rheolaidd.

**24. Yr Ardd Wyllt**

Mae ein Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau (CRhAFf) wedi cymeryd yr awenau wrth ddatblygu ein Ardd Wyllt. Diolchwn iddyn nhw am eu hymdrechion+ wrth iddynt baratoi'r ardal ar gyfer holl ddisgyblion Sant Curig.

**25. Cyfleusterau Chwaraeon**

Mae holl blant yr Ysgol wedi gallu manteisio ar y cyfleusterau allanol ar gyfer chwarae yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a chystadleuthau. Mae cwmni Cynnal a Chadw Ardaloedd Allanol yn ymweld â'r Ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cyflwr y cyfleusterau allanol e.e. ffram ddringo. Mae'r Urdd hefyd yn cynnal Clwb Chwraeon yn wythnosol yn Sant Curig.

**26. Cyfeillion Curig**

Braf oedd gweld ein Cyfeillion Curig yn gweithio'n galed iawn i godi arian er lles disgyblion Sant Curig eleni.

**27. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2023/2024**

| Cyfnod | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer y Diwrnodau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2023 | Llun 4 Medi 2023 | Dydd Llun 30 Hydref 2023 | Dydd Gwener 3 Tach 2023 | Dydd Gwener 22 Rhag 2023 | 75 |
| Gwanwyn 2024 | Dydd Llun 8 Ion 2024 | Dydd Llun 12 Chwe 2024 | Dydd Gwener 16 Chwe 2024 | Dydd Gwener 22 Maw 2024 | 50 |
| Haf 2024 | Dydd Llun 8 Ebrill 2024 | Dydd Llun 27 Mai 2024 | Dydd Gwener 31 Mai 2024 | * Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024 | 70 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

i) Bydd **Dydd Llun 4 Medi 2022 a * Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer **pob** Ysgol a Gynhelir gan yr AALl. Bydd y pedwar diwrnod HMS sy'n weddill i'w cymryd yn ôl disgresiwn pob ysgol yn unigol ar ôl ymgynghori'n briodol â staff. *** Y bwriad yw y bydd y diwrnod HMS hwn naill ai'n cael ei gymryd ar ddydd Llun 22 Gorffennaf 2024 neu ar adeg arall er enghraifft ar ffurf sesiynau gyda'r nos.**

Bydd yr holl ysgolion ar gau ar **Ddydd Llun 6 Mai 2024** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiadau arwyddocaol: | Nadolig | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2023 |
| | Pasg | Dydd Gwener y Groglith 29ain o Fawrth 2024<br>Dydd Llun y Pasg 1 Ebrill 2024 |
| | Gwyliau banc mis Mai | Dydd Llun 6 Mai 2024<br>Dydd Llun 27 Mai 2024 |